
# Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024

## Pecyn Sleidiau Cymru

ISBN Digidol 978-1-83745-145-6

# Cyflwyniad




## Gwybodaeth am y Pecyn Sleidiau

- Dyma'r seithfed arolwg yn y gyfres eilflwydd hon
- Mae ganddo gynnwys oedd gynt yn rhan o'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr
- Mae'r pecyn sleidiau hwn yn canolbwyntio ar y meysydd craidd hyn o'r arolwg :
  - Recriwtio a swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau
  - Bylchau sgiliau yn y gweithlu presennol
  - Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu
  - Arferion cyflogwyr: Arferion Gwaith Perfformiad Uchel, defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a strategaethau Sero Net
- Mae'r pecyn sleidiau hwn hefyd yn cynnwys canfyddiadau o arolwg dilynol Buddsoddiad mewn Hyfforddiant, a gwblhawyd gyda chyflogwyr a ddywedodd eu bod wedi darparu hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf yn ystod y prif Arolwg Sgiliau Cyflogwyr.

# Methodoleg

- Roedd y boblogaeth oedd yn rhan o'r arolwg yn cynnwys cyflogwyr y DU ar lefel safle (yn hytrach nag ar lefel sefydliadol) oedd ag o leiaf 2 weithiwr cyflogedig ar y gyflogres. Ni chynhwyswyd unig fasnachwyr oedd ag un person ar y gyflogres.
- Roedd yr arolwg yn cwmpasu safleoedd ar draws y DU gyfan, yn cynnwys holl sectorau'r economi (y meysydd masnachol, cyhoeddus ac elusennol).
- Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 oedd yr ail yn y gyfres i ddefnyddio dull Samplu Tebygolrwydd Ar Hap (RPS), lle mae'r holl sampl yn cael ei brosesu yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt, sy'n golygu bod gan safleoedd yr un tebygolrwydd, a thebygolrwydd hysbys, o gael eu samplu.
- Casglwyd data drwy Gyfweliadau Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI). Cynigiwyd opsiwn i'r cyflogwyr gael eu cyfweld yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Y gyfradd ymateb gyffredinol i safleoedd yng Nghymru oedd 71%, wedi ei chyfrifo fel 'cyflawnwyd cyfweliadau' fel cyfran o'r holl ymatebwyr y cysylltwyd yn llwyddiannus â nhw ac a gafodd ganlyniad terfynol (yn cynnwys y rhai a wrthododd neu a ymadawodd yn ystod y cyfweliad). Roedd y gyfradd ymateb i Gymru'n uwch na'r gwledydd eraill yn y DU, gann amrywio o 63% i 66%.
- Mae mwy o wybodaeth dechnegol ar gael yn yr Adroddiad Technegol cysylltiedig a gyhoeddwyd ar wefan yr Adran Addysg.

# Confensiynau adrodd

- Defnyddir y termau ‘safle’ a ‘cyflogwr’ yn gyfnewidiol drwy’r adroddiad hwn i gyd er mwyn osgoi gormod o ailadrodd.
- Mae’r holl wahaniaethau y cyfeirir atynt yn sylwadau’r adroddiad yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel hyder o 95%. Mae hyn yn berthnasol i wahaniaethau rhwng is-grwpiau’r arolwg, megis rhanbarth, maint a sector, a hefyd i wahaniaethau dros amser.
- Trwy’r adroddiad cyfan, dangosir ffigurau sylfaen heb eu pwysoli ar dablau a siartiau i roi syniad o ddibynadwyedd ystadegol y ffigurau. Mae’r ffigurau hyn bob amser wedi eu seilio ar nifer y sefydliadau sy’n ateb cwestiwn, oherwydd dyma’r wybodaeth sy’n ofynnol i benderfynu ar ddibynadwyedd yr ystadegau.
- Yn y tablau, dynodir ‘sero’ fel llinell doriad (‘-’); a defnyddir seren (‘*’) os yw’r ffigur yn fwy na sero ond yn llai na 0.5%. Mae’r mesurau nifer wedi eu talgrynu i’r 100 agosaf.
- Trwy’r pecyn sleidiau cyfan hwn, ni adroddir am unrhyw ffigurau sydd â maint sylfaen o lai na 30 o sefydliadau (rhoddir dwy seren yn eu lle (**)), ac mae ffigurau gyda maint sylfaen o 30 i 49 wedi eu dynodi gan un seren (*) gerllaw’r label data a dylid eu trin gyda gofal am fod y lled gwall ar gyfer y canlyniadau hyn yn fwy ac felly mae’r canlyniadau’n llai dibynadwy yn ystadegol
- Nodwch, oni bai ei fod yn nodi’n wahanol, nodwch bod y ffigurau i gyd sydd wedi eu cyflwyno yn y pecyn sleidiau hwn wedi eu cymryd o ymatebion gan gyflogwyr i’r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 ac felly maen nhw’n cynrychioli eu barn hwy.

# Cynnwys yr holiadur

Cafodd darnau mawr o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr eu rhoi mewn modiwlau er mwyn sicrhau y gallai cwestiynau o'r ESS a EPS gael eu cynnwys heb ychwanegu'n sylweddol at hyd y cyfweliad. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau craidd ac un gyfres o gwestiynau mewn modiwlau i'r cyflogwyr i gyd, ar ôl cael eu dyrannu ar hap i fodiwl. Mae strwythur yr arolwg (yn y drefn y gofynnwyd y cwestiynau i gyflogwyr) i'w weld isod:

- **Swyddi gwag a swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau**
- Sianelau recriwtio (Modiwl C)
- Recriwtio ymadawyr addysg (Modiwl C)
- Lleoliadau gwaith a gweithgareddau ysbrydoli gwaith (Modiwl B)
- **Cyfansoddiad y gweithlu a bylchau sgiliau**
- **Tanddefnyddio (Modiwl A)**
- Uwchsgilio (Modiwl A)
- **Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu**
- **Buddsoddiad mewn Hyfforddiant**
- Cymwysterau galwedigaethol (Modiwl B)
- **Prentisiaethau (Modiwl A)**
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (Modiwl D)
- **Arferion Gwaith Perfformiad Uchel (Modiwl D)**
- **Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn Awr ac yn y Dyfodol**
- **Sero Net**

Dim ond y pynciau mewn **print trwm** sy'n derbyn sylw yn y pecyn sleidiau hwn

# Y cyfweliadau a gyflawnwyd

| Fesul cenedl | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 86,800 | 5,605 | 1,379 | 1,446 | 1,384 | 1,396 |
| **Fesul rhanbarth** | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
| Gogledd Cymru | 21,400 | 1,350 | 324 | 350 | 348 | 328 |
| Canolbarth Cymru | 9,700 | 717 | 181 | 180 | 166 | 190 |
| De Ddwyrain Cymru | 36,200 | 2,310 | 568 | 594 | 553 | 595 |
| De Orllewin Cymru | 19,400 | 1,228 | 306 | 322 | 317 | 283 |
| Canolbarth/De Orllewin Cymru | 29,200 | 1,945 | 487 | 502 | 483 | 473 |
| **Fesul maint (nifer y gweithwyr cyflogedig)** | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
| 2-4 | 46,800 | 1,600 | 364 | 435 | 379 | 422 |
| 5-24 | 31,500 | 2,790 | 705 | 704 | 711 | 670 |
| 25-49 | 4,600 | 686 | 188 | 181 | 172 | 145 |
| 50-99 | 2,100 | 355 | 76 | 85 | 87 | 107 |
| 100+ | 1,700 | 174 | 46 | 41 | 35 | 52 |

Mae’r ffigurau i gyd a gyflwynir yn y pecyn sleidiau hwn yn atebol i led gwall. Ar lefel hyder o 95%, mae’r lled gwall mwyaf yn llai na 2 pwynt canran ar y lefel gyffredinol ac mae fel arfer rhwng 2 a 7 pwynt canran ar draws y rhanbarth a’r is-grwpiau maint

. Cymerwyd cyfrifiad y boblogaeth o Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesu (IDBR) yr ONS ac maen nhw wedi eu talgrynu i’r cant agosaf.

# Cyfweliadau a gyflawnwyd

| Fesul sector | Poblogaeth | Nifer y cyfweliadau | Modiwl A | Modiwl B | Modiwl C | Modiwl D |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Sector Cynradd a Chyfleustodau | 9,800 | 350 | 84 | 103 | 73 | 90 |
| Gweithgynhyrchu | 4,300 | 371 | 100 | 80 | 93 | 98 |
| Adeiladu | 8,700 | 388 | 93 | 97 | 93 | 105 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 16,300 | 1,116 | 269 | 274 | 292 | 281 |
| Gwestai a Bwytai | 9,800 | 618 | 154 | 153 | 177 | 134 |
| Trafnidiaeth a Storio | 2,600 | 191 | 56 | 43 | 49 | 43 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2,000 | 110 | 33 | 30 | 25 | 22 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 1,200 | 85 | 14 | 26 | 25 | 20 |
| Y Gwasanaethau Busnes | 14,600 | 832 | 180 | 234 | 201 | 217 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 1,400 | 88 | 29 | 21 | 15 | 23 |
| Addysg | 2,800 | 379 | 96 | 101 | 88 | 94 |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | 6,900 | 693 | 176 | 177 | 164 | 176 |
| Y Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill | 6,300 | 384 | 95 | 107 | 89 | 93 |


Mae'r ffigurau i gyd a gyflwynir yn y pecyn sleidiau hwn yn atebol i led gwall. Ar lefel hyder o 95%, mae'r lled gwall mwyaf rhwng 3 a 10 pwynt canran ar draws y rhanbarth a'r is-grwpiau maint.

.


Cymerwyd cyfrifiad y boblogaeth o Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesu (IDBR) yr ONS ac maen nhw wedi eu talgrynu i'r cant agosaf.

# Poblogaeth yr arolwg: proffil maint y cyflogwr fesul nifer y gweithwyr cyflogedig

## % o'r holl safleoedd





## % o'r gweithlu




Nifer y gweithwyr cyflogedig: 2 i 4 | 5 i 24 | 25 i 49 | 50 i 99 | 100+ o weithwyr cyflogedig

Ffynhonnell: Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesu (IDBR) yr ONS

# Poblogaeth yr arolwg: sector




Ffynhonnell: Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesu (IDBR) yr ONS

# Diffiniadau allweddol

| | |
|---|---|
| **Sail safle** | Mae'r cyfrannau wedi eu seilio ar y nifer o safleoedd, sydd wedi eu diffnio yn y fan yma fel un o leoliadau sefydliad, lle mae o leiaf dau o bobl yn gweithio. |
| **Sail cyflogaeth** | Mae'r cyfrannau wedi eu seilio ar y cyfanswm o weithwyr cyflogedig a pherchnogion sy'n gweithio ar draws y safleoedd. |

| | Swyddi gwag | Swyddi gwag lle mae prinder sgiliau (SGPS) | Bylchau sgiliau |
|---|---|---|---|
| **Amlder** | Cyfran y safleoedd sy'n nodi o leiaf un swydd wag | Cyfran y safleoedd sy'n nodi o leiaf un swydd wag lle mae prinder sgiliau (h.y. swyddi gwag y dywedir eu bod yn anodd eu llenwi am nad oes gan ymgeiswyr y sgiliau, cymwysterau neu brofiad perthnasol) | Cyfran y safleoedd gydag o leiaf un gweithiwr cyflogedig y mae eu cyflogwr yn credu nad ydynt yn gwbl hyfedr yn eu rôl |
| **Dwysedd** | Swyddi gwag fel cyfran o'r gyflogaeth gyfan | Swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau fel cyfran o'r swyddi gwag i gyd | Nifer y staff a ddywedodd nad oeddent yn gwbl hyfedr fel cyfran o'r gyflogaeth gyfan |


# Trosolwg

- Ar ôl saethu i fyny yn 2022, gostyngodd lefelau'r swyddi gwag yn 2024, gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn 2015 a 2017. Cwympodd dwysedd y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau o lefel uchel 2022 ond parhaodd yn uwch na lefelau 2019.
- Mae'r bylchau sgiliau ymysg y gweithlu wedi disgyn i'w lefelau isaf a gofnodwyd ers i'r arolwg ddechrau, ond ni welwyd yr un gostyngiad yn y gyfran o weithwyr cyflogedig gyda bylchau sgiliau, gan awgrymu bod bylchau sgiliau wedi eu cronni ymysg nifer bychan o gyflogwyr.
- Roedd y gyfran o gyflogwyr gydag o leiaf un gweithiwr cyflogedig oedd â chymwysterau neu sgiliau uwch na'r gofyn ar gyfer eu rôl yn is nag yn 2022. Gan Gymru'r oedd y gyfran uchaf o staff wedi eu tanddefnyddio o holl wledydd y DU (pobl sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau ar lefel uwch na'r gofyn i wneud rôl y swydd y maen nhw ynddi ar hyn o bryd).
- Gwelwyd dirywiad nodedig yn 2022 yn y gyfran o gyflogwyr oedd yn darparu hyfforddiant. Parhaodd hyn yn 2024, pan oedd cyfran debyg o gyflogwyr yng Nghymru wedi darparu hyfforddiant i'w staff, yn unol â gwledydd eraill y DU. Mae hyn yn awgrymu o bosibl bod y lefel is o ymgysylltiad gan gyflogwyr mewn hyfforddi'r gweithlu'n dod yn beth arferol.
- Gostyngodd y buddsoddiad ariannol mewn hyfforddiant hefyd o 6% mewn termau real o'i gymharu â 2022. Fodd bynnag, roedd cyflogwyr yng Nghymru wedi hyfforddi cyfran uwch o'u staff ac wedi darparu mwy o ddiwrnodau hyfforddi na gwledydd eraill y DU.

# Recriwtiad a swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (SGPS)


# Gostyngodd amlder a dwysedd y swyddi gwag o’r hyn oeddent yn 2022, pan oeddent ar eu huchaf yn y gyfres hyd yma

| Nifer y swyddi gwag | 25,500 | 25,700 | 36,500 | 36,400 | 40,800 | 58,900 | 35,700 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|




*Y Sylfaen: Pob safle (2011: 5,958; 2013: 5,996; 2015: 6,027; 2017: 5,913; 2019: 6,773; 2022: 4,825; 2024: 5,605)*

# Gwelodd pob gwlad yn y DU ostyngiad yn nwysedd ac amlder eu swyddi gwag yn dilyn cynnydd cyflym yn 2022, gan ddychwelyd i lefelau tebyg i 2019





| | | | |
|---|---|---|---|
| 35,700 | 798,600 | 29,900 | 74,700 |

Nifer y swyddi gwag a adroddwyd (2024)

*Y Sylfaen: Pob safle (2019: Cymru: 6,773, Lloegr: 70,217, Gogledd Iwerddon: 4,023, 2022: Cymru: 4,825, Lloegr: 59,486, Gogledd Iwerddon: 3,400, Yr Alban: 5,207; 2024: Cymru: 5,605, Lloegr: 8,639, Gogledd Iwerddon: 3,388, Yr Alban: 5,080). Ni chafodd yr Alban ei chynnwys yn 2019.*

# Gostyngodd amlder y swyddi gwag ymhob rhanbarth o Gymru, heblaw yng Nghanolbarth Cymru, gan ddychwelyd i lefelau 2019. Gostyngodd dwysedd y swyddi gwag yn Ne Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 35,700 | 15,500 | 10,400 | 7,000 | 2,700 | 13,100 |

Nifer y swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt (2024)


*Y Sylfaen: Pob safle: (2024: 5,605; 2022: 4,825; 2019: 6,773). Mae meintiau sylfaen rhanbarthol 2024 yn amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Fesul sector, roedd y gostyngiad yn y dwysedd swyddi gwag ar ei fwyaf nodedig ar gyfer y sectorau Trafnidiaeth a Storio a Gwestai a Bwytai





*Y Sylfaen: Pob safle: (2024: 5,605; 2022: 4,825) 2024 Mae meintiau'r sylfaen yn amrywio o 85 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,116 yn Cyfanwerthu a Manwerthu*

# Er bod amlder y SGPS wedi gostwng ers 2022, mae'r gyfran gyda SGPS wedi cynyddu'n raddol ers 2011




*Y Sylfaen ar gyfer amlder y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau: Pob safle (2011: 5,958; 2013: 5,996; 2015: 6,027; 2017: 5,913; 2019: 6,773; 2022: 4,825; 2024: 5,605).*
*Y Sylfaen ar gyfer dwysedd: Pob safle gyda swyddi gwag 2024: 1,300 (2011: 1,095; 2013: 1,016; 2015: 1,277; 2017: 1,399; 2019: 1,503, 2022; 1,560)*

# Gostyngodd amlder y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau ar draws pob un o wledydd y DU tra bo'r dwysedd wedi gostwng ar gyfer pob un heblaw Gogledd Iwerddon, gan ddychwelyd i lefelau 2019





| Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|
| 10,100 | 213,000 | 7,500 | 20,000 |

Nifer y swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt (2024)

*Y Sylfaen: Pob safle (2019: Cymru: 6,773, Lloegr: 70,217, Gogledd Iwerddon: 4,023; 2022: Cymru: 4,825, Lloegr: 59,486, Gogledd Iwerddon: 3,400, Yr Alban: 5,207; 2024: Cymru: 5,605, Lloegr: 8,639, Gogledd Iwerddon: 3,388, Yr Alban: 5,080). Ni chafodd yr Alban ei chynnwys yn 2019.*

# Gostyngodd amlder y SGPS ar draws yr holl ranbarthau i lefelau tebyg i 2019, ac roedd ar ei uchaf yn Ne Ddwyrain Cymru ac ar ei isaf yng Nghanolbarth Cymru





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10,100 | 5,000 | 2,200 | 2,200 | 600 | 2,800 |

Nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (2024)


*Y Sylfaen ar gyfer amlder y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau: Pob safle: (2024: 5,605; 2022: 4,825; 2019: 6,773). Mae meintiau sylfaen rhanbarthau 2024 yn amrywio o 454 yng Nghanolbarth Cymru i 1,321 yn Ne Ddwyrain Cymru. Y Sylfaen ar gyfer dwysedd: Pob safle gyda swyddi gwag 2024: 1,300 (2019: 1,503; 2022; 1,560). 2024 rhanbarthol. Mae meintiau sylfaen rhanbarthau 2024 yn amrywio o 160 yng Nghanolbarth Cymru i 552 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Roedd y dwysedd SGPS ar ei uchaf yn y sectorau Gweithgynhyrchu ac Adeiladu




*Y Sylfaen: Pob safle gyda swyddi gwag (2024: 1,300; 2022: 1,560). Mae’r meintiau sylfaen yn 2024 yn amrywio o 37 yn y Sector Cynradd a Chyfleustodau i 245 mewn Iechyd a Gwaith Cymdeithasol.* ***Nid yw Gwybodaeth a Chyfathrebu (19), Gwasanaethau Ariannol (12) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (21) ar y siart oherwydd meintiau sylfaen isel****.* ***Mae * yn dynodi maint sylfaen isel o 30-49 safle****.*

# Gan y Crefftau Medrus yr oedd y dwysedd SGPS uchaf ond cafwyd y gostyngiad mwyaf ers 2022 mewn Gweithredwyr Peiriannau





| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2,600 | 1,200 | 1,000 | 1,100 | 1,700 | 300 | 400 | 1,200 | 500 |

Nifer y swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (2024)


*Y Sylfaen: Pob safle gyda swyddi gwag yn y galwedigaethau a nodir (Mae meintiau Sylfaen 2024 yn amrywio o 95 ar gyfer Rheolwyr i 360 ar gyfer galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill)*

# Sgiliau neu wybodaeth arbenigol yw’r sgiliau technegol ac ymarferol mwyaf cyffredin o hyd i gael eu nodi fel sgiliau sy’n brin ymysg ymgeiswyr SGPS





*Y Sylfaen: Pob un gyda swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau(2024: 469; 2022: 640)*
*Dangosir y ffigurau fel canran o’r holl swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau a ddilynwyd (nid canran o bob safle)*
*Dangosir y 6 uchaf o’r sgiliau technegol ac ymarferol a nodwyd.*

# Mae’r sgiliau pobl a phersonol a nodwyd fel rhai oedd yn brin ymysg ymgeiswyr yn parhau’n gyson â 2022





*Y Sylfaen: Pob un gyda swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau (2024: 469; 2022: 640).*
*Dangosir y ffigurau fel canran o’r holl swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau a ddilynwyd (nid canran o bob safle).*
*Dangosir y 6 uchaf o’r sgiliau pobl a phersonol a nodwyd.*

# Yr effaith a nodwyd amlaf o ganlyniad i SGPS oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i aelodau eraill o staff




*Y Sylfaen: Pob safle gyda swyddi gwag anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau (2024: 427; 2022: 528). Dangosir y 6 effaith a nodwyd amlaf.*


# Y cam gweithredu mwyaf cyffredin a gymerwyd i oresgyn y broblem o swyddi gwag anodd eu llenwi oedd defnyddio dulliau recriwtio newydd neu gynyddu’r gwariant ar recriwtio




*Y Sylfaen: Pob safle gyda swyddi gwag anodd eu llenwi sydd oll yn ganlyniad i brinder sgiliau (2024: 427; 2022: 528).*
*Ni ddangosir ymatebion a nodwyd gan lai na 5% yn 2024.*


# Bylchau sgiliau yn y gweithlu presennol

# Mae amlder y bylchau sgiliau wedi gostwng yn raddol ers dechrau’r gyfres Arolygon Sgiliau Cyflogwyr, ond nid yw hyn wedi arwain at ostyngiad amlwg yn y dwysedd bylchau sgiliau




*Y Sylfaen: Pob safle (2011: 5,958; 2013: 5,996; 2015: 6,027; 2017: 5,913; 2019: 6,773; 2022: 4,825; 2024: 5,605)*


# Gostyngodd dwysedd y bylchau sgiliau ac roedd yn weddol gyson ar draws gwledydd y DU, tra bod amlder y bylchau sgiliau yng Nghymru'n cyfateb â'r cyfartaledd yn y DU




| | | | |
|---|---|---|---|
| 50,400 | 1,078,300 | 33,400 | 94,500 |

*Y Sylfaen: Pob safle (2019: Cymru: 6,773, Lloegr: 70,217, Gogledd Iwerddon: 4,023; 2022: Cymru: 4,825, Lloegr: 59,486, Gogledd Iwerddon: 3,400, Yr Alban: 5,207; 2024: Cymru: 5,605, Lloegr: 8,639, Gogledd Iwerddon: 3,388; Yr Alban: 5,080). Ni chafodd yr Alban ei chynnwys yn 2019.*

# Parhaodd amlder a dwysedd y bwlch sgiliau yn unol â lefelau 2022 a 2019 ar draws holl ranbarthau Cymru





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 50,400 | 28,900 | 9,900 | 2,700 | 8,900 | 11,600 |

Y nifer o fylchau sgiliau (2024)


*Y Sylfaen: Pob safle 2024: Cymru: 5,605; Mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Roedd dwysedd y bylchau sgiliau ar ei uchaf yn y Gwasanaethau Ariannol, a’r Gwasanaethau Busnes oedd wedi gweld y gostyngiad mwyaf ers 2022




*Y Sylfaen: Pob safle: 2024: 5,605; 2022: 4,825 (2024 Mae meintiau'r sylfaen yn amrywio o 85 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*

# Roedd dwysedd y bylchau sgiliau ar ei uchaf yn y Galwedigaethau Elfennol ac ar ei isaf ymysg Rheolwyr. Dim ond y galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill a welodd ostyngiad yn y dwysedd





| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10,200 | 7,100 | 5,800 | 4,200 | 6,600 | 5,000 | 4,800 | 3,300 | 3,300 |

Nifer y bylchau sgiliau (2024)


*Y Sylfaen: Pob safle gyda staff yn y galwedigaethau a nodir (2024 Mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 763 ar gyfer Pobl Broffesiynol Cyswllt i 5,382 ar gyfer Rheolwyr)*

# Parhaodd ffactorau dros dro i fod yn brif achosion y bylchau sgiliau




*Y Sylfaen: Pob safle gyda bylchau sgiliau – hyd at 2 alwedigaeth wedi eu dilyn (2024: 955; 2022: 925).*
*Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau (nid canran o bob safle).*
*Dangosir y 6 ffactor uchaf a nodwyd.*


# Yn debyg i 2022, cynnydd yn llwyth gwaith aelodau eraill o staff oedd yr effaith a nodwyd amlaf o ganlyniad i'r bylchau sgiliau




| Yr effaith ar berfformiad cyflogwyr: | |
|---|---|
| Effaith fawr | 12% |
| Effaith fach | 50% |
| Dim effaith | 38% |


*Y Sylfaen: Pob safle gyda bylchau sgiliau (2024: 955; 2022: 925)*

# Angen sgiliau arbenigol ar gyfer y rôl oedd y sgil technegol mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg staff gyda bylchau sgiliau





*Y Sylfaen: Pob safle gyda bylchau sgiliau – hyd at 2 alwedigaeth wedi eu dilyn (2024: 955; 2022: 925).*
*Dangosir y ffigurau fel canran o'r bylchau sgiliau i gyd (nid canran o bob safle).*
*Dangosir y 6 uchaf o'r sgiliau technegol ac ymarferol oedd yn brin.*

# Y gallu i reoli a blaenoriaethu tasgau oedd y sgil pobl a phersonol mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg staff gyda bylchau sgiliau




*Y Sylfaen: Pob safle gyda bylchau sgiliau – dilynwyd hyd at 2 alwedigaeth (2024: 955; 2022: 925).*
*Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau (nid canran o bob safle).*
*Dangosir y 6 uchaf o'r sgiliau pobl a phersonol oedd yn brin.*


# Cynyddu rhaglenni, gwariant neu weithgareddau hyfforddi oedd y weithred fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd i oresgyn diffyg hyfedredd ymysg staff




*Y Sylfaen: Pob safle gyda bylchau sgiliau – dilynwyd hyd at 2 alwedigaeth (2024: 955; 2022: 925).*
*Dangosir y ffigurau fel canran o'r holl fylchau sgiliau (nid canran o bob safle).*
*Dangosir y 6 gweithred uchaf a nodwyd.*


# Tanddefnyddio sgiliau a chymwysterau

# Mae cyfran y safleoedd lle mae staff yn cael eu tanddefnyddio wedi gostwng ledled holl wledydd y DU i'r ffigurau isaf a welwyd yn y gyfres Arolwg Sgiliau Cyflogwyr




*Y Sylfaen: Pob safle yn y DU (2024: 7,899; 2022: 16,625; 2019: 32,088) Meintiau sylfaen cenedlaethol yn 2024 (Cymru: 1,379; Lloegr: 2,204, Gogledd Iwerddon: 1,702, Yr Alban: 2,614). Ni chafodd yr Alban ei chynnwys yn 2019.*

# Roedd y gostyngiad yng nghyfran y safleoedd gyda staff oedd yn cael eu tanddefnyddio wedi ei yrru gan Dde Ddwyrain Cymru, yr unig ranbarth a welodd ostyngiad o lefelau 2022




*Y Sylfaen: Pob safle 2024 (Cymru (Modiwl A): 1,379; Mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 181 yng Nghanolbarth Cymru i 568 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu

# Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu - crynodeb

| Cwestiwn | 2011 | 2013 | 2015 | 2017 | 2019 | 2022 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi | 63% | 62% | 63% | 62% | 62% | 60% | **60%** |
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi *tu allan i'r swydd* | 47% | 47% | 49% | 47% | 45% | 36% | **40%** |
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi *yn y swydd* | 50% | 48% | 49% | 48% | 49% | 51% | **50%** |
| % sydd *ond* yn hyfforddi *yn*-y-swydd | 16% | 15% | 14% | 15% | 18% | 24% | **21%** |
| % o staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf | 56% | 62% | 64% | 58% | 65% | 63% | **64%** |
| Nifer y dyddiau o hyfforddiant fesul person a hyfforddwyd | 7.5 | 7.7 | 7.2 | 6.2 | 5.1 | 6.8 | **6.6** |
| Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi a ddarparwyd | 4.9m | 5.6m | 5.4m | 4.4m | 4.2m | 5.3m | **5.4m** |

# Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu - crynodeb

| Cwestiwn | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi | 60% | 59% | 56% | 63% |
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi *tu allan i'r swydd* | 40% | 40% | 37% | 42% |
| % o gyflogwyr sy'n hyfforddi *yn y swydd* | 50% | 48% | 46% | 53% |
| % sydd *ond* yn hyfforddi *yn y swydd* | 21% | 19% | 20% | 20% |
| % o staff a hyfforddwyd dros y 12 mis diwethaf | 64% | 63% | 61% | 60% |
| Nifer y dyddiau o hyfforddiant fesul person a hyfforddwyd | 6.6 | 5.6 | 5.8 | 6.0 |
| Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi a ddarparwyd | 5.4m | 93m | 2.9m | 9.0m |


# Roedd cyfanswm y nifer o ddyddiau hyfforddi a nifer y dyddiau hyfforddi fesul hyfforddai wedi parhau'n debyg i'r rheiny yn 2022

| Fesul cenedl a rhanbarth | Nifer y dyddiau fesul person a hyfforddwyd | | | Cyfanswm y dyddiau hyfforddi | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2022 | **2024** | 2019 | 2022 | **2024** |
| Cymru | 5.1 | 6.8 | **6.6** | 4.2m | 5.3m | **5.4m** |
| Gogledd | 5.5 | 6.9 | **4.9** | 1.1m | 1.3m | **0.9m** |
| Canolbarth | 6.4 | 5.2 | **5.8** | 0.3m | 0.3m | **0.3m** |
| De Ddwyrain | 4.7 | 7.4 | **8.0** | 1.9m | 2.8m | **3.3m** |
| De Orllewin | 5.4 | 5.7 | **5.3** | 0.9m | 1.0m | **0.9m** |
| Canolbarth a De Orllewin (wedi'u cyfuno) | 5.6 | 5.6 | **5.4** | 1.2m | 1.2m | **1.2m** |

## Y sector Gweithgynhyrchu ddarparodd y nifer uchaf o ddyddiau hyfforddi fesul hyfforddai


| Fesul sector | Nifer y dyddiau fesul person a hyfforddwyd | | | Cyfanswm y dyddiau hyfforddi (miloedd) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019 | 2022 | **2024** | 2019 | 2022 | **2024** |
| Y Sector Cynradd a Chyfleustodau | 4.4 | 5.5 | **5.7** | 88 | 92 | **130** |
| Gweithgynhyrchu | 4.3 | 7.7 | **13.5** | 369 | 673 | **933** |
| Adeiladu | 8.4 | 6.6 | **8.2** | 275 | 167 | **281** |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 5.7 | 7.3 | **6.2** | 540 | 692 | **600** |
| Gwestai a Bwytai | 6.3 | 6.4 | **5.6** | 389 | 426 | **390** |
| Trafnidiaeth a Storio | 4.1 | 6.9 | **5.0** | 115 | 156 | **124** |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4.5 | 5.7 | **6.7** | 61 | 48 | **37** |
| Gwasanaethau Ariannol | 2.8 | 14.3 | **5.7** | 69 | 94 | **136** |
| Gwasanaethau Busnes | 4.9 | 5.9 | **6.9** | 515 | 703 | **860** |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 4.1 | 3.2 | **3.1** | 298 | 181 | **86** |
| Addysg | 4.9 | 5.2 | **3.9** | 433 | 475 | **373** |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | 5.5 | 8.2 | **6.2** | 861 | 1,316 | **1,232** |
| Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill | 5.6 | 8.8 | **7.4** | 192 | 296 | **229** |

# Darparodd y cyflogwyr yng Nghymru feintiau tebyg o hyfforddiant i'r rhai yn Lloegr a mwy na'r rhai yng Ngogledd Iwerddon, ond llai na'r rhai yn Yr Alban





*Y Sylfaen: Pob safle 2024: Lloegr: 8,639; Gogledd Iwerddon: 3,388; Yr Alban: 5,080; Cymru: 5,605*

# Cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi ariannu neu drefnu hyfforddiant i'w staff





*Y Sylfaen: Pob safle 2024: Cymru: 5,605; Mae meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Cyflogwyr mewn Addysg, Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol oedd fwyaf tebygol o fod wedi darparu unrhyw hyfforddiant




*Y Sylfaen: Pob safle (2024 Mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 85 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*

# Er bod y nifer o staff a hyfforddwyd wedi cynyddu ers ffigur 2022, roedd y gyfran gyfan o staff a hyfforddwyd yn debyg i 2022 ar draws y rhanbarthau i gyd





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 823,400 | 54,000 | 192,000 | 410,700 | 166,700 | 220,700 |

Y nifer o staff a hyfforddwyd (2024)


*Y Sylfaen: Pob safle 2024: Cymru: 5,605; Mae'r meintiau sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Gan y Gwasanaethau Ariannol yr oedd y gyfran uchaf o staff a hyfforddwyd ac a welodd y cynnydd mwyaf o ffigur 2022





*Y Sylfaen: Pob safle 2024; Mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 85 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu*

# Yn debyg i 2022, y galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill oedd wedi hyfforddi'r gyfran uchaf o staff




*Y Sylfaen: Pob un sy'n cyflogi pob galwedigaeth (ac eithrio data wedi'i fodelu) (Mae meintiau sylfaen 2024 yn amrywio o 525 ar gyfer Pobl Broffesiynol Cyswllt i 2,676 i Reolwyr)*

# Hyfforddiant penodol i swydd oedd y math mwyaf cyffredin o hyd o hyfforddiant a ddarparwyd i staff





**Unrhyw hyfforddiant cynefino**

**66%**

*Y Sylfaen: Pob safle sy'n hyfforddi (2024: 4,014; 2022: 3,421)*


# Mae’r rhan fwyaf o safleoedd wedi trefnu hyfforddiant neu ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddiant ar-lein neu e-ddysgu




| | |
|---|---|
| Unrhyw hyfforddiant ar-lein neu hunan—ddysgu | 76% |
| Y ddau | 40% |

*Y Sylfaen: Pob safle sy’n hyfforddi (4,014)*


# Methu sbario amser y staff yw'r rhwystr mwyaf cyffredin o hyd, yn debyg i flynyddoedd blaenorol




*Y Sylfaen: Pob safle a fyddai wedi darparu mwy o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf os bydden nhw wedi gallu gwneud hynny (2024: 1,977; 2022: 1,743)*

# Roedd y gyfran o gyflogwyr mewn ecwilibriwm hyfforddiant wedi parhau yr un fath â 2022

**Ecwilibriwm Hyfforddiant:** diddordeb y cyflogwyr mewn darparu mwy o hyfforddiant nag y gallent




*Nodwch bod y cyflogwyr sy'n hyforddi a atebodd 'Ddim yn gwybod' (4%) wedi eu cynnwys yn y grŵp 'Eisiau hyfforddi mwy' ar y mesur terfynol

*Y Sylfaen: Pob safle (5,605)*

# Buddsoddiad mewn Hyfforddiant

# Yr Arolwg Buddsoddiad mewn Hyfforddiant

## Cynnwys yr Holiadur

- Cafodd yr arolwg dilynol am Fuddsoddiad mewn Hyfforddiant ei gynnal gyda chyflogwyr a ddywedodd yn ystod y prif arolwg ESS eu bod nhw wedi darparu hyfforddiant (yn y swydd neu du allan i'r swydd) i'w staff yn y 12 mis diwethaf.
- Mae sleidiau 41 a 42 yn cyflwyno canfyddiadau am fuddsoddiad cyffredinol cyflogwyr mewn hyfforddiant, yn ogystal â gwahaniaethau sectoraidd a newidiadau dros amser.
- Mae'r ffigurau o arolygon Buddsoddiad Mewn Hyfforddiant blaenorol wedi cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant, gan olygu y gallant fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd mewn adroddiadau, pecynnau sleidiau neu dablau data o 2022 neu gynt.

## Cyfweliadau a gyflawnwyd

| Fesul cenedl | Y nifer o gyfweliadau |
|---|---|
| Cymru | 1,507 |
| **Fesul sector** | Y nifer o gyfweliadau |
| Y Sector Cynradd a Chyfleustodau | 53 |
| Gweithgynhyrchu | 101 |
| Adeiladu | 86 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 243 |
| Gwestai a Bwytai | 154 |
| Trafnidiaeth a Storio | 44 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 26 |
| Gwasanaethau Ariannol | 20 |
| Gwasanaethau Busnes | 242 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 28 |
| Addysg | 148 |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | 258 |
| Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill | 104 |

# Gostyngodd y buddsoddiad cyffredinol mewn hyfforddiant ychydig bach mewn termau go iawn ers lefelau 2022

| Cwestiwn | 2011 | 2013 | 2015 | 2017 | 2019 | 2022 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y gwariant cyfan ar hyfforddiant** | £2.4bn | £2.7bn | £2.9bn | £2.8bn | £2.2bn | £2.5bn | £2.4bn |
| **Hyfforddiant tu allan i'r gwaith** | £1.1bn | £1.3bn | £1.5bn | £1.5bn | £1.2bn | £1.1bn | £1.2bn |
| **Hyfforddiant yn y gwaith** | £1.4bn | £1.4bn | £1.3bn | £1.3bn | £0.9bn | £1.5bn | £1.2bn |
| **Gwariant ar hyfforddiant fesul hyfforddai^** | £3,700 | £3,800 | £3,800 | £4,000 | £2,700 | £3,200 | £2,900 |
| **Gwariant ar hyfforddiant fesul gweithiwr cyflogedig^** | £2,100 | £2,300 | £2,400 | £2,300 | £1,700 | £2,000 | £1,900 |

*Mae'r ffigurau o 2011-2022 wedi eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Mae ^ yn dynodi lle mae ffigurau wedi eu talgrynnu i'r cant agosaf.*


# Buddsoddiad mewn Hyfforddiant – y manylion fesul sector

| | Cyfanswm y gwariant ar hyfforddiant | | Gwariant ar hyfforddiant fesul hyfforddai^ | | Gwariant ar hyfforddiant fesul gweithiwr cyflogedig^ | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022** | **2024** | **2022** | **2024** | **2022** | **2024** |
| **Cymru** | **£2.5bn** | **£2.4bn** | **£3,200** | **£2,900** | **£2,000** | **£1,900** |
| Y Sector Cynradd a Chyfleustodau | £50m | £120m | £3,200 | £5,200 | £1,300 | £2,300 |
| Gweithgynhyrchu | £550m | £610m | £6,400 | £8,900 | £3,600 | £4,700 |
| Adeiladu | £100m | £150m | £4,000 | £4,400 | £1,900 | £2,500 |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | £270m | £190m | £2,900 | £1,900 | £1,400 | £1,100 |
| Gwestai a Bwytai | £170m | £180m | £2,500 | £2,600 | £1,600 | £1,600 |
| Trafnidiaeth a Storio | £130m | £80m | £5,900 | £3,200 | £3,400 | £1,800 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu. | ** | ** | ** | ** | ** | ** |
| Gwasanaethau Ariannol | ** | ** | ** | ** | ** | ** |
| Gwasanaethau Busnes | £360m | £250m | £3,000 | £2,100 | £2,000 | £1,500 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | ** | ** | ** | ** | ** | ** |
| Addysg | £350m | £260m | £3,900 | £2,700 | £3,100 | £2,100 |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | £330m | £360m | £2,000 | £1,800 | £1,500 | £1,600 |
| Celfyddydau a Gwasanaethau Eraill | £100m | £80m | £3,100 | £2,700 | £1,900 | £1,600 |

*Mae'r ffigurau o 2011-2022 wedi eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Gwasanaethau Ariannol (20), Gweinyddiaeth Gyhoeddus (28) a Gwybodaeth a Chyfathrebu (26) wedi eu nodi oherwydd maint isel y sylfaen. Mae ^ yn dynodi lle mae ffigurau wedi eu talgrynnu i'r cant agosaf.*


# Prentisiaethau

# Roedd y gyfran o gyflogwyr oedd yn cynnig prentisiaethau'n debyg i flynyddoedd blaenorol ledled rhanbarthau Cymru




*Y Sylfaen: Pob safle yng Nghymru (Modiwl A) 2024: 1,379; 2022: 1,239; 2019: 1,704. 2024 Mae maint sylfaen y rhanbarthau'n amrywio o 181 yng Nghanolbarth Cymru i 568 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Cyflogwyr yn y sector Addysg oedd fwyaf tebygol o gynnig prentisiaethau, a'r sector Trafnidiaeth a Storio welodd y gostyngiad mwyaf





*Y Sylfaen: Pob safle (Modiwl A): 2024: 1379 (2022: 1,239; 2019: 1,704). Mae meintiau Sylfaen 2024 yn amrywio o 33 mewn Gwybodaeth a Chyfathrebu i 269 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu; nid yw **Gwybodaeth a Chyfathrebu (2022: 20), Gwasanaethau Ariannol (2024: 14) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (2024: 29)** wedi eu cynnwys ar y siart oherwydd meintiau sylfaen isel. **Lle mae'r meintiau sylfaen rhwng 30 a 49, rhoddwyd seren i mewn yn y gwerth data nesaf**.*

# Arferion Gwaith Perfformiad Uchel


Mae **arferion Gwaith Perfformiad Uchel (GPU)** yn arferion a gydnabyddir i sicrhau bod sgiliau gweithwyr cyflogedig yn cael eu harneisio, eu meithrin a'u defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

# Yn gyffredinol, roedd 6% o safleoedd wedi mabwysiadu saith neu fwy o arferion GPU yng Nghymru, sy'n gyfatebol â'r Alban a Gogledd Iwerddon





*Y Sylfaen: Pob safle yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon, a Chymru (2024: 14,073; 2022: 13,432) Pob safle yn 2024: Gogledd Iwerddon: 3,388; Yr Alban: 5,080; Cymru: 5,605.*

# Roedd cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru’n fwy tebygol o fod yn gyflogwyr GPU na’r rhai mewn rhanbarthau eraill o Gymru, tra bo’r rhai yng Ngogledd Cymru’n llai tebygol




*Y Sylfaen: Pob safle yng Nghymru 2024: 5,605; 2022: 1,153. 2024 Mae maint sylfaen y rhanbarthau’n amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*


# Cyflogwyr yn y sector Addysg oedd fwyaf tebygol o fod yn gyflogwyr GPU, fel oeddent yn 2022




*Y Sylfaen: Pob safle (Modiwl D): 2024: 5,605 (2022: 1,153). 2024 Mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 85 yn y Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu;* ***Nid yw ffigurau 2022 ar gyfer Gwasanaethau Ariannol (2022: 12), Gwybodaeth a Chyfathrebu (2022: 20), Gweinyddiaeth Gyhoeddus (2022: 20) wedi eu rhoi ar y siart oherwydd eu meintiau sylfaen isel.***

***Lle mae'r meintiau sylfaen rhwng 30 a 49, mae seren wedi ei gynnwys yn y gwerth data nesaf.***

# Bod â Pholisi Cyfle Cyfartal yw'r Arfer Gwaith Perfformiad Uchel (GPU) mwyaf amlwg o hyd yn 2024




**6%**

yn gyflogwyr GPU (wedi eu diffinio fel rhai sydd â 7 allan o 10 mesur GPU yn eu lle)


**4 arfer**

oedd cyfartaledd y nifer o arferion GPU a fabwysiadwyd

*Y Sylfaen: 2024: Pob safle (5,605); 2022: Pob safle yn Modiwl D (1,153)*


# Deallusrwydd Artiffisial

# Roedd cyflogwyr yng Nghymru'n llai tebygol na chyflogwyr yn Lloegr o ddefnyddio AI, ond yn fwy tebygol na chyflogwyr yng Ngogledd Iwerddon





*Y Sylfaen: Pob safle: Cymru: 5,605; Lloegr: 8,639; Gogledd Iwerddon: 3,388; Yr Alban: 5,080.*

# Roedd y sector Gwybodaeth a Chyfathrebu'n amlwg yn fwy tebygol o ddefnyddio AI na sectorau eraill




*Y Sylfaen: Pob safle (Mae'r meintiau sylfaen yn amrywio o 85 mewn Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*


# Nid oedd gan y mwyafrif o safleoedd nad oeddent yn defnyddio AI unrhyw gynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol




*Y Sylfaen: Pob safle nad ydynt yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) (4,690)*


# Sero Net

# Y cyflogwyr yn Ne Orllewin Cymru oedd fwyaf tebygol o fod yn Sero Net a chyflogwyr yng Ngogledd Cymru oedd leiaf tebygol




*Y Sylfaen: Pob safle yng Nghymru (5,605). Mae'r maint sylfaen rhanbarthol yn amrywio o 717 yng Nghanolbarth Cymru i 2,310 yn Ne Ddwyrain Cymru.*

# Y Sector Cynradd a Chyfleustodau oedd fwyaf tebygol o fod yn Sero Net a'r sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus oedd leiaf tebygol o gael strategaeth yn ei lle




*Y Sylfaen: Pob safle yng Nghymru (5,605). Mae'r meintiau sylfaen fesul sector yn amrywio o 85 yn y Gwasanaethau Ariannol i 1,116 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*

# Crynodeb a chasgliadau

# Crynodeb o’r Canfyddiadau

- Canfu Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 bod gan **gyfran is o gyflogwyr swyddi gwag** (17% o'i gymharu â 22% yn 2022). **Gostyngodd amlder y SGPS hefyd**, i lawr o 10% yn 2022 i 6% yn 2024. Roedd 10,100 **o** SGPS yn 2024, oedd **tua hanner y nifer yn 2022** (20,600) ond a oedd yn gyfatebol â lefelau 2019 (9,800) a 2017 (9,900). Gostyngodd **dwysedd y SGPS** hefyd (28% o'i gymharu â 35% yn 2022). Cofnodwyd y dwyseddau SGPS uchaf yn y sectorau Gweithgynhyrchu (54%) ac Adeiladu (53%), a’r isaf mewn Cyfanwerthu a Manwerthu (17%).

- **Dywedodd pob un bron (95%) o’r cyflogwyr oedd â SGPS yn neilltuedig bod y rhain wedi cael effaith ar eu sefydliad**. Effaith fwyaf cyffredin SGPS oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i staff cyfredol (90%), ac yn dilyn hynny roedd cynnydd mewn costau gweithredu (55%) ac anawsterau’n cyflawni amcanion gwasanaethau’r cwsmer (52%).

- O ran heriau sgiliau mewnol, **gostyngodd cyfran y cyflogwyr oedd wedi nodi bylchau sgiliau (12%)** o 14% yn 2022, gan ddychwelyd i lefelau 2019 (13%). Fodd bynnag, arhosodd cyfran y gweithlu oedd â bylchau sgiliau’n sefydlog (3.9% o’i gymharu â 4.1% yn 2022).

- Yn 2024, roedd dwysedd y bwlch sgiliau ar ei uchaf yn y sector **Gwasanaethau Ariannol** (6.8%), tra bo’r heriau mwyaf fesul galwedigaeth mewn rolau llafurddwys, yn arbennig alwedigaethau **Elfennol** (6.2%), ond roedd gan y sectorau **Rheolwyr** (1.5%) a **Phobl broffesiynol** (2.6%) y lefelau isaf o fylchau sgiliau.

- Achoswyd cyfran fawr o’r bylchau sgiliau, o leiaf yn rhannol, gan achosion dros dro fel bod yn newydd i’r rôl (71%) a gweithwyr cyflogedig heb gwblhau eu hyfforddiant eto (59%). Yn debyg i’r achos gyda SGPS, **cynnydd yn y llwythi gwaith oedd effaith fwyaf cyffredin y bylchau sgiliau** (50%), er bod hyn yn is nag yn 2022 (56%).

# Crynodeb o’r Canfyddiadau - 2

- Mae **cyfran y cyflogwyr sy’n darparu hyfforddiant wedi parhau’n debyg i** 2022 (y ddau yn 60%), tra bo’r nifer o ddiwrnodau hyfforddi a dderbyniodd bob gweithiwr hyfforddedig (6.6 diwrnod) hefyd yn cyfateb â 2022 (6.8 diwrnod).

- Roedd **bron i ddwy ran o dair** (64%) o staff **wedi derbyn hyfforddiant**, yn gyfatebol â 2022 (63%). Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfran o staff a hyfforddwyd gan y cyflogwyr mewn Gwasanaethau Ariannol (90% o'i gymharu â 57% yn 2022) ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (88% o'i gymharu â 76%). Y galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill oedd y mwyaf tebygol eto y tro hwn o fod wedi derbyn hyfforddiant (87%).

- **Gostyngodd y gwariant cyfan gan gyflogwyr ar hyfforddiant o £2.5bn yn 2022 i £2.4bn yn 2024**, sy’n cynrychioli gostyngiad o 6% mewn termau go iawn.

- Yn gyffredinol, roedd gan **16% o gyflogwyr brentisiaid, neu roedden nhw’n cynnig prentisiaethau**, sy’n debyg i 17% yn 2022**.** Y sectorau oedd fwyaf tebygol o gynnig prentisiaethau oedd **Addysg** (28%) a **Chelfyddydau a Gwasanaethau Eraill** (24%).

- **Mae bron i hanner (45%) y cyflogwyr** heb unrhyw gynlluniau i ddod yn sero net. Y rhanbarth leiaf tebygol o weithredu’r cynlluniau hyn oedd Gogledd Cymru (48%). Y **Sector Cynradd a Chyfleustodau (8%)** oedd fwyaf tebygol o fod ar sero net o’i gymharu â sectorau eraill.

- Roedd **oddeutu un mewn wyth (12%) o gyflogwyr yn defnyddio AI**, a chyflogwyr yn y sector Gwybodaeth a Chyfathrebu oedd fwyaf tebygol o wneud hynny (48%). Ymysg y rhai nad oeddent yn defnyddio AI, doedd gan y mwyafrif llethol (80%) ddim cynlluniau i wneud hynny.

- **Ystyriwyd 6% o gyflogwyr yng Nghymru’n gyflogwyr Gwaith Perfformiad Uchel.** Yr arfer GPU mwyaf cyffredin oedd bod â pholisi cyfle cyfartal (78%), ac yn dilyn hynny ddarparu hyfforddiant yn y gwaith neu du allan i’r gwaith (60%).

# Casgliadau

- O gymharu â 2022, mae'r farchnad lafur wedi oeri yn dilyn cynnydd cyflym mewn swyddi gwag wrth i economi Cymru ddod allan o gyfnod pandemig COVID-19. Mae swyddi gwag wedi gostwng, gan ddychwelyd i lefelau a welwyd gynt yn 2015 a 2017. Mae'r her o amgylch y cyflenwad sgiliau wedi gostwng, er bod cyfran yr holl swyddi gwag sy'n SGPS yn parhau'n uwch na'r lefel a welwyd yn 2019.
- Gan ganolbwyntio ar yr her sgiliau mewnol, er bod gan gyfran is o'r cyflogwyr fylchau sgiliau o'i gymharu â 2022, nid oedd hyn wedi arwain at ostyngiad nodedig yn y gyfran o weithwyr cyflogedig gyda bylchau sgiliau, gan awgrymu bod bylchau sgiliau wedi eu cronni'n drymach ymysg nifer is o gyflogwyr.
- Yn debyg i fersiynau blaenorol o'r gyfres Arolwg Sgiliau'r Cyflogwr, mae heriau wrth recriwtio gweithwyr gyda sgiliau addas ac ymdrin â bylchau sgiliau ymysg staff cyfredol yn parhau i rwystro perfformiad busnes. Mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar weithwyr cyflogedig cyfredol, yn gyrru costau gweithredu i fyny, yn cyfrannu at golli cyfleoedd busnes, ac yn cyfyngu ar fabwysiadu cynhyrchion ac arferion gweithio newydd.
- Mae hyfforddiant a datblygiad y gweithlu'n ffordd hanfodol o ymdrin â phroblemau sgiliau o fewn y gweithlu. Gwelwyd dirywiad nodedig yn 2022 yn y gyfran o gyflogwyr yng Nghymru (ac ar draws y DU) oedd yn darparu hyfforddiant i'w staff o'i gymharu â'r blynyddoedd 2015 a 2019. Mae'r canfyddiadau diweddaraf am amlder hyfforddiant yn gyson â 2022, gan awgrymu bod lefel is o ymgysylltiad y cyflogwyr mewn hyfforddi'r gweithlu yn dod yn beth arferol o bosibl.
- Gostyngodd y buddsoddiad ariannol mewn hyfforddiant hefyd o 6% mewn termau go iawn o'i gymharu â 2022. Er bod rhai patrymau sy'n achos pryder, mae'r gyfran o staff a hyfforddir yng Nghymru a'r nifer o ddiwrnodau hyfforddi sy'n cael eu darparu i staff wedi parhau ar lefelau sefydlog (roedd y cyntaf yn uwch na'r gwledydd eraill yn y DU), a hefyd roedd y gostyngiad mewn gwariant cyffredinol ar hyfforddiant yn llai amlwg nag yn Lloegr, a welodd ostyngiad o 11% o un flwyddyn i'r nesaf.